



Diogelu Gwent Gwent Safeguarding

Protocol Amlasiantaethol ar gyfer Rheoli Achosion o Hunan-niwed Risg Uchel a Hunanladdiad Posibl ymhlith Plant a Phobl Ifanc



Cynnwys	Rhif tudalen
Cefndir	3
Gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), a'r Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant (SPACE)	4
Siart llif	5
1. Diffiniadau a chyd-destun	6
2. ymddygiadau hunan-niwed risg uchel ymhlith pobl ifanc	8
3. Proses	10
Atodiad 1: Adnoddau a chysylltiadau	12

Cefndir

Mae'r protocol hwn wedi'i ddatblygu o ganlyniad i [Adolygiad Ymarfer Plant Cryno](#) a gafodd ei gynnal gan Fwrdd Diogelu Gwent (2018). Nododd adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant, mewn achosion risg uchel o hunan-niwed a hunanladdiad, er mwyn amddiffyn y bobl ifanc hyn, fod angen rhannu gwybodaeth yn llawn rhwng yr asiantaethau dan sylw a dylai prosesau fod ar waith i hyrwyddo cyfrifoldebau a rennir ar draws yr asiantaethau.

Mae'r protocol hwn yn nodi fframwaith ar gyfer ymateb amlasiantaethol mewn perthynas ag achosion risg uchel o hunan-niwed a hunanladdiad posibl. Mae Siarad â Fi 2 – Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru 2015–2020 – yn nodi “nid oes un rheswm unigol pam y byddai rhywun o bosibl yn gwneud amdano'i hun neu'n hunan-niweidio. Mae'n digwydd fel arfer mewn ymateb i gyfres gymhleth o ffactorau sy'n bersonol a hefyd yn gysylltiedig â ffactorau cymdeithasol a chymunedol ehangach.”


Dylai'r holl bobl ifanc sydd wedi'u nodi ag ymddygiad hunan-niwed risg uchel gael eu rheoli drwy ddull amlasiantaethol. Ni ddylai unrhyw asiantaeth sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc hyn weithio ar ei phen ei hun; dylai fod dull cydweithredol, gyda'r holl asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd.

Dylai'r protocol hwn gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r daflen 'Trin materion yn ymwneud â hunan-niweidio a meddwl am hunanladdiad – canllaw i weithwyr proffesiynol' ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen a gwirfoddolwyr, sydd ar gael yma: [Ymateb i faterion o hunan-niwed a meddyliau am hunanladdiad mewn plant a phobl ifanc yng Ngwent | Diogelu Gwent](#). Hefyd, dylai gael ei ddarllen ar y cyd ag unrhyw bolisiâu sefydliadol a/neu ganllawiau cenedlaethol, fel dogfen Llywodraeth Cymru 'Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc', sydd ar gael yma: [Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc | Llywodraeth Cymru](#).

Mae'r diagramau isod yn manylu ar y gwahanol lefelau o wasanaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc, ac yn amlinellu'r broses i ymarferwyr wrth ymdrin â phryderon mewn perthynas ag achosion risg uchel o hunan-niwed a hunanladdiad.

**Gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), a'r
Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant (SPACE)**

RHANNAU 1–4



Siart Ilif

Mae'r ymarferydd yn casglu gwybodaeth sy'n dangos bod angen asesiad brysennu ar y plentyn/person ifanc **Llinell Ddyletswydd Argyfwng Hwb Gwybodaeth Glinigol (CCIH) y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) 01633 749519**

(Llun–Gwener 8am–6pm)

Y tu allan i'r oriau hyn, ffoniwch switsfwrdd y Bwrdd Iechyd ar 01633 234234 a gofyn am seiciatrydd ar alwad y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

(Os oes angen triniaeth feddygol, cysylltwch â'r meddyg teulu y tu allan i oriau, neu fynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor neu'r adran damweiniau ac achosion brys leol.)

Ar ôl 5pm, gall ymarferwyr ffonio GIG 111 a phwyso opsiwn 2 am gyngor.

Mae canllaw ar ddewis y gwasanaeth cywir ar gael yma:

[Gwasanaethau GIG i chi a'ch teulu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan](#)

****Ni ddylai'r plentyn gael ei adael ar ei ben ei hun yn ystod y broses hon.****



Os yw'r meini prawf brys yn cael eu bodloni, bydd asesiad gan y Tîm Cyswllt Brys yn cael ei gynnig.

Dylai caniatâd rhieni gael ei geisio cyn yr asesiad.

Os nad yw'r meini prawf brys yn cael eu bodloni, bydd cyngor yn cael ei roi ynghylch y llwybr atgyfeirio mwyaf priodol – naill ai Rhan 1 neu Ran 2.

Mae Clinigydd y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i roi copi o'r cynllun diogelwch i'r ymarferydd.



Os oes unrhyw bryderon amddiffyn plant wrth aros am asesiad, dylai ffurflen Dyletswydd i Adrodd gael ei chyflwyno i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhaid ystyried cynnull Trafodaeth Strategaeth neu Gyfarfod Strategaeth (*i'w cydlynu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol*). Hefyd, dylai cynnal cyfarfod Grŵp Ymateb ar unwaith gael ei ystyried, i reoli'r effaith ar y plentyn/person ifanc ac unrhyw blant/bobl ifanc eraill a allai fod wedi cael eu heffeithio. [Protocol ar gyfer ymateb uniongyrchol i ddigwyddiadau tyngedfennol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc | Diogelu Gwent](#)



Yn dilyn asesiad a Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN) (tudalen 7) yn nodi risg uchel / risg uniongyrchol o hunanladdiad neu batrwm sy'n dwysáu o hunan-niwed difrifol, bydd angen atgyfeirio at:

Tîm Allgymorth Argyfwng (i'w lenwi gan Glinigwr Cyswllt Brys) a chyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol (canlyniad yr asesiad i'w ddarparu).

Mae cyfarfod amlasiantaethol i'w gynnull, ei gydlynu a'i gofnodi gan y Gwasanaethau Cymdeithasol **os nad** yw canlyniad yr asesiad yn nodi'r angen am asesiad neu driniaeth o ran salwch seiciatrig fel claf mewnol. Yn yr achos hwn, dylai'r cyfarfod gael ei gynnull gan Iechyd – Rhan 3 Iechyd i gynnull a chydlynu cyfarfod amlasiantaethol o fewn 24 awr. Mae Diogelu Iechyd Corfforaethol i gael eu gwahodd i bob cyfarfod (hysbysiad i'w anfon i Uned Busnes Bwrdd Diogelu Gwent).

Mae'r rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr sy'n berthnasol i'r plentyn/person ifanc i gael eu gwahodd. Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi i gael eu dosbarthu o fewn dau ddiwrnod gwaith, a bydd y cofnodion yn dilyn o fewn 20 diwrnod gwaith.



Mae cyfarfodydd Monitro/Adolygu i gael eu cynnal bob tri mis neu yn unol â sefyllfa'r person ifanc/plentyn a lefel yr angen. Byddai plant sy'n cael eu rhyddhau yn cael cynllun diogelwch a thriniaeth wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol.

1. Diffiniadau a chyd-destun

Hunanladdiad

Mae'r diffiniad o hunanladdiad yn weithred sy'n ddibynnol ar fwriad. Bydd crwner yn dwyn rheithfarn o hunanladdiad os oes tystiolaeth glir y tu hwnt i bob amheuaeth resymol fod yr unigolyn wedi bwriadu lladd ei hun, ac mai hynny oedd yr achos. Mae "syniadaeth hunanladdol" yn derm meddygol sy'n cael ei ddefnyddio yn aml i ddisgrifio cyflwr person sy'n meddwl am hunanladdiad. Gall hyn amrywio o feddwl amdano ar un achlysur, i lunio cynllun manwl.

Hunan-niwed risg uchel

- Gallai gweithredoedd y person ifanc fod wedi arwain at ei farwolaeth neu anaf difrifol, ac y bu angen iddo fynd i'r ysbyty. Risg uniongyrchol o hunanladdiad/hunan-niwed, yn mynegi cynlluniau hunanladdiad.
- Nid yw'r gwaith ymyrraeth a chymorth gyda pherson ifanc yn lleihau risg ymddygiad hunan-niweidiol.
- Mae tystiolaeth a ffactorau risg yn awgrymu bod problemau amddiffyn plant yn ffurfio rhan o'r cymhelliant ar gyfer hunan-niwed (Protocol Hunan-niweidio Enfield 2017).

Mae'r bobl ifanc hynny sy'n hunan-niweidio dro ar ôl tro yn wynebu risg gryn dipyn yn fwy o ladd eu hunain na'r rheiny sy'n hunan-niweidio unwaith. Mae 40–60% o'r rheiny sy'n lladd eu hunain wedi niweidio eu hunain yn fwriadol o leiaf unwaith o'r blaen (Adolygiad Ymarfer Plant Cryno Bwrdd Diogelu Gwent 2018). Nid yw pob un o'r bobl ifanc sy'n hunan-niweidio dro ar ôl tro yn bwriadu marw – "hunan-niwed anhunanladdol" (Siarad â Fi 2 – Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru 2015–2020). Mae'r strategaeth yn awgrymu mai'r ffordd orau o ddeall hunanladdiad yw trwy ystyried pob unigolyn, ei fywyd a'i amgylchiadau.

Mae rhwng 25% a 33% o'r rheiny sy'n cyflawni hunanladdiad yn y glasoed wedi ceisio gwneud hynny o'r blaen. Ymgais blaenorol at hunanladdiad yw'r un rhagfynegydd pwysicaf ar gyfer hunanladdiad yn y boblogaeth gyffredinol (Siarad â Fi 2 2015–2020).

Anaml y bydd rheswm unigol pam mae plentyn neu berson ifanc yn dangos ymddygiadau hunan-niweidio risg uchel, ond mae hyn fel arfer o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau risg, amgylchiadau a helbulon, gweler isod. Gweler y ddolen i [Adolygiad Thematiq Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) i farwolaethau plant/pobl ifanc 2019.

Ffactorau risg hunan-niwed

- Hunan-barch isel, neu hunan-gasáu
- Hwyliau isel neu newid mewn hwyliau
- Anobaith
- Perffeithrwydd
- Wynebu problemau iechyd meddwl
- Problemau gartref neu yn yr ysgol, yn cynnwys bod ar goll
- Esgeulustod, camdriniaeth gorfforol, camdriniaeth emosiynol neu gamdriniaeth rywiol
- Dioddefwyr bwllo neu bobl ifanc sy'n bwllo eraill (gan gynnwys ar-lein)
- Newid sydyn mewn ffrindiau neu encilio o grŵp cymdeithasol
- Patrymau sy'n dwysáu o ran ymddygiadau hunan-niweidio, risg hunanladdiad
- Diffyg diddordeb mewn gweithgareddau ysgol arferol a/neu ddirywiad cyffredinol mewn graddau neu ddirywiad mewn ymdrech (Bwrdd Diogelu Gwent 2019)

- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)
- Ymddygiad gwahanol i'r arfer, e.e. encilgar neu aflonyddgar
- Camddefnyddio cyffuriau ac/neu alcohol neu ymddygiad mentrus
- Diffyg neu chwalu cymorth/perthnasoedd teuluol
- Dylanwad y rhyngwrdd, y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu electronig ar hunan-niweidio
- Camfanteisio ar blant
- Materion rhywedd neu hunaniaeth rywiol
- Profedigaeth
- Hunan-niwed ymysg teulu/ffrindiau agos

Ffactorau risg hunanladdiad

- Mae ymchwil yn awgrymu bod dynion mewn mwy o berygl
- Statws economaidd-gymdeithasol isel
- Cyflawniad addysgol cyfyngedig
- Ymgais/ymgeisiau blaenorol i gyflawni hunanladdiad
- Anhwylder meddyliol (gan gynnwys rhai sydd heb eu hadnabod neu heb eu trin)
- Afiechydon corfforol neu gronig mawr gan gynnwys poen gronig
- Camddefnyddio alcohol neu sylweddau
- Hanes o hunanladdiad yn y teulu
- Ymdeimlad o arwahanrwydd
- Anobaith
- Dylanwad y rhyngwrdd, y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu electronig
- Byrbwylltra
- Derbyn i'r carchar / ymwneud â'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol
- Erlid, bwlio a stigma
- Colledion neu anghytgord o safbwynt perthnasoedd neu o safbwynt cymdeithasol
- Mynediad rhwydd at bethau marwol y gellir eu defnyddio i gyflawni hunanladdiad
- Mae elfen heintus yn gysylltiedig â chlystyrau o hunanladdiad
- Cyswllt ag ymddygiadau hunanladdol
- Stigma sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwael o ran ceisio cymorth
- Rhwystrau i fynediad at ofal iechyd, yn enwedig triniaeth iechyd meddwl a thriniaeth ar gyfer problem camddefnyddio sylweddau (Siarad â Fi 2)
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys profedigaeth

Ffactorau gwarchodol hunan-niwed/hunanladdiad

- Sgiliau i ddatrys problemau, datrys gwrthdaro ac ymdrin ag anghydfod mewn modd di-drais
- Mynediad cyfyngedig at bethau y gellir eu defnyddio i gyflawni hunanladdiad
- Cyswllt cryf â chymorth teuluol a chymunedol
- Ceisio cymorth a mynediad rhwydd at ofal o ansawdd ar gyfer afiechydd meddyliol a chorfforol
- Daliadau personol, cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol/ysbrydol sy'n cefnogi'r hunan (Siarad â Fi 2)

2. Adnabod ymddygiadau hunan-niweidio risg uchel ymhlith pobl ifanc

- Bydd Gwasanaeth Cyswllt Brys y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn nodi'r bobl ifanc sy'n dangos ymddygiadau hunan-niweidio a hunanladdiad risg uchel wrth fynd i adran damweiniau ac achosion brys ac/neu wrth gael eu derbyn i'r ysbyty neu Glinig Brys i Gleifion Allanol.
- Mae'r Tîm Allgymorth mewn Argyfwng (COT) yn darparu ymyriadau dwys yn seiliedig ar dystiolaeth i blant a phobl ifanc mewn argyfwng yn lle cael eu derbyn i'r ysbyty, a bydd hefyd yn nodi pobl ifanc sy'n dangos ymddygiadau hunan-niweidio risg uchel, yn enwedig y rheiny lle nad yw ymyrraeth yn lleihau'r risg i'r person ifanc.

Mae ymarferwyr/asiantaethau eraill a allai adnabod yr ymddygiadau hunan-niweidio risg uchel ymhlith pobl ifanc yn cynnwys meddygon teulu, pediatregwyr, adrannau damweiniau ac achosion brys, yr heddlu, addysg (gan gynnwys gwasanaethau cyfeirio disgyblion), Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, Fy Nhîm Cymorth (Mhyst), Panel y Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant (SPACE), lleoliadau preswyl, tîm iechyd meddwl Mewngymorth i Ysgolion.

Cwestiynau i adnabod hunan-niweidio risg uchel a risg o hunanladdiad

Gall unrhyw ymarferwyr sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ddefnyddio'r cwestiynau hyn. Dechreuwch y drafodaeth drwy ofyn cwestiynau am eu bywyd yn gyffredinol i gael deall eu profiad bywyd yn well. Er enghraifft, ydyn nhw'n mynd allan gyda ffrindiau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, ydyn nhw'n mynd i'r ysgol, beth ydyn nhw'n ei astudio a beth ydyn nhw eisiau ei wneud ar ôl gorffen yn yr ysgol? Bydd hyn yn rhoi syniad am gynlluniau ar gyfer y dyfodol, cyn i chi ddechrau archwilio'r materion eraill. Mae rhagor o gyngor ac arweiniad ynghylch ymgysylltu â phlant a phobl ifanc pan fo pryderon ynghylch hunan-niweidio a/neu hunanladdiad posibl ar gael yma:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/ymateb-i-faterion-hunan-niweidio-a-theimladau-hunanladdol-ymhlith-pobl-ifanc-canllawiau.pdf>

- Gofynnwch am gyd-destun eu gofid, beth yw'r cymhellion neu'r sbardunau ar gyfer hunan-niwed, ac oes modd osgoi'r rhain neu eu lleihau?
- Ydyn nhw wedi hunan-niweidio yn y gorffennol?
- Ydyn nhw wedi defnyddio unrhyw strategaethau ymdopi amgen yn y gorffennol? Ydy'r rhain wedi helpu?
- Oes rhywun arall yn ymwybodol o'r hunan-niweidio?
- Ydyn nhw wedi hunan-niweidio yn ddiweddar? Os oes gan y person ifanc anaf, aseswch yr anaf os ydych chi'n gymwys i wneud hynny. Os ydych chi'n ansicr, gofynnwch am gymorth meddygol priodol.
- Ydyn nhw'n sôn am symptomau iselder: hwyliau isel, llai o weithrediad cymdeithasol a llai o bleser o weithgareddau roedden nhw'n eu mwynhau o'r blaen, cwsig gwael, cysgu gormod, yn canolbwyntio'n wael?
- Oes ganddyn nhw unrhyw wasanaethau cymorth?
- Ydyn nhw'n sôn bod ganddyn nhw awydd rhoi terfyn ar eu bywyd eu hunain? Ydy hynny'n gyson, yn aml, yn achlysurol neu'n anaml? Ydyn nhw'n sôn am eisiau rhoi terfyn ar eu bywyd eu hunain nawr?
- Ydyn nhw wedi meddwl am ddulliau y bydden nhw'n eu defnyddio i gyflawni hunanladdiad?
- Os yw dull/dulliau penodol yn cael ei nodi/eu nodi, a fyddai modd iddyn nhw ddefnyddio'r dull hwnnw/dulliau hynny?

- Ydyn nhw wedi nodi amser pan fyddan nhw'n bwriadu cyflawni hunanladdiad? Os felly, ydyn nhw wedi dechrau paratoi ar gyfer hyn (e.e. ysgrifennu nodyn, casglu meddyginiaeth ac ati)?
- Ydyn nhw erioed wedi ceisio lladd eu hunain yn y gorffennol?
- Beth sydd wedi eu rhwystro nhw rhag gweithredu ar eu meddyliau hunanladdol a'u cadw nhw'n ddiogel?
- Oes ganddyn nhw unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol? Pa mor bell i'r dyfodol (e.e. gwyliau wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf, eu pen-blwydd nesaf) neu oes unrhyw dystiolaeth eu bod nhw'n bwriadu bod yma ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol?
- Oes ganddyn nhw gynllun diogelwch ar waith?

Mae'n cael ei gydnabod na fydd ymarferwyr, o bosibl, yn gallu gofyn yr holl gwestiynau uchod. Fodd bynnag, mae'r cwestiynau hyn yn darparu canllaw ynghylch gwybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i lywio'r asesiad brysbennu. I gwblhau'r asesiad, bydd Clinigydd y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn gwirio cofnodion iechyd ac iechyd meddwl y person ifanc i weld a oes unrhyw hanes blaenorol.

Yr ymarferydd, bob amser, ddylai ofyn y cwestiynau i'r bobl ifanc sy'n cysylltu â Llinell Ddyletswydd Argyfwng y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Nid oes angen cydsyniad rhiant i ymgynghori â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) drwy'r Llinell Ddyletswydd Argyfwng, ond, os oes angen asesiad, dylai cydsyniad rhiant gael ei geisio.

Ar ôl cwblhau'r asesiad brysbennu, bydd canlyniad clinigol yn cael ei roi i'r ymarferydd, a bydd cyngor proffesiynol yn cael ei roi. Mae canlyniadau posibl yr asesiad yn cynnwys:

- Asesiad claf allanol cyswllt brys os yw'r asesiad yn nodi bod y plentyn/person ifanc yn risg uchel.
- Atgyfeirio at wasanaeth neu asiantaeth arall os yw'r asesiad yn nodi nad yw'r plentyn/person ifanc yn risg uchel.

Bydd Clinigydd y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn cynghori'r ymarferydd i gysylltu â rhieni/gofalwyr y person ifanc i roi gwybod iddyn nhw am ganlyniad yr asesiad risg, gan sicrhau bod ganddyn nhw gopi o'r cynllun diogelwch. Os oes gan y plentyn/person ifanc gynllun diogelwch eisoes ar waith, gallai fod yn fuddiol adolygu'r cynllun hwn, a'i ddiweddarau, yn hytrach na datblygu cynllun newydd. Mae'n bwysig bod cynlluniau diogelwch yn cael eu datblygu ar y cyd â'r plant/bobl ifanc dan sylw, a'u bod nhw'n cael eu hannog i gymryd perchnogaeth o'u cynllun. Bydd copi o'r cynllun yn cael ei ddarparu drwy e-bost er mwyn i'r ymarferydd ei rannu â'r rhieni/gofalwyr. Dylai'r sawl sy'n atgyfeirio roi gwybod i'w arweinydd diogelu am ganlyniad yr asesiad.

Os yw'r plentyn/person ifanc yn cael ei gludo i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys am driniaeth feddygol, dylai apwyntiad claf allanol cyswllt brys gael ei drefnu yno.

Os yw'r plentyn/person ifanc yn hysbys i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), dylai fod asesiad cyfoes WARRN (Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru, Snowdon et al, 2019) wedi ei gwblhau. WARRN yw'r ddogfen asesu risg gymeradwy sy'n cael ei defnyddio gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ac, ar ôl asesiad brys, rhaid ei rhannu ag ymarferwyr sy'n gweithio'n agos gyda'r person ifanc. Dylai hyn gael ei adolygu bob tri mis neu pan fydd newidiadau sylweddol i gyflwyniad y person ifanc, ac/neu ei amgylchiadau.

3. Proses

Ar ôl nodi person ifanc ag ymddygiadau hunan-niweidio risg uchel (nodi ar dudalen 5), bydd yn cael asesiad gyda'r Tîm Cyswllt Brys. Os bydd yr asesiad yn cadarnhau bod y plentyn/person ifanc yn risg uchel, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud at y Tîm Allgymorth mewn Argyfwng (COT) a fydd yn rhoi cynllun cymorth dyddiol ar waith i sicrhau cynnal asesiad cyflwr meddyddiol trylwyr. Os bydd angen ymyrraeth arbenigol i gleifion mewnol, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud at y tîm didoli yn Nhŷ Lydiard, a fydd yn asesu ac yn cynghori yn unol â hynny o fewn 24 awr i'r atgyfeiriad.

Os oes cred nad oes modd rheoli diogelwch y person ifanc (wedi'i fesur yn ôl dangosyddion clinigol, lefel risg, addasrwydd ar gyfer derbyn, ac ati), dylai trafodaeth strategaeth gael ei chynnal gyda'r heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a phenderfynu a oes angen gweithredu ar unwaith oherwydd difrifoldeb y sefyllfa (gallai camau brys fod wedi cael eu cymryd eisoes).

Mae angen i'r ymarferydd sydd wedi siarad â'r person ifanc gyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol – drwy roi gwybod am y pryderon dros y ffôn, a llenwi'r ffurflen Dyletswydd i Adrodd o fewn 24 awr. Mae angen ei gwneud yn glir a yw'r atgyfeiriad yn cael ei wneud o dan y Protocol Hunan-niweidio Risg Uchel a Hunanladdiad Posibl - achosion risg uchel yw'r rheiny sy'n cyrraedd y Tîm Cymorth ac Ymgysylltu Dwys (ISET), y Tîm Allgymorth mewn Argyfwng (COT), Fy Nhîm Cymorth (Mhyst), asesiad Rhan 4, derbyn i'r ysbyty neu ddwysáu mewn ymddygiadau risg uchel a allai fod yn angheuol.

Mae'n bwysig mai'r ymarferydd a siaradodd â'r person ifanc ac a gysylltodd â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) sy'n cyflwyno'r ffurflen Dyletswydd i Adrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, os yw hynny'n bosibl (mae modd ei gynorthwyo i wneud hyn). Mewn rhai achosion, efallai mai'r Person Diogelu Dynodedig sy'n cyflwyno'r ffurflen Dyletswydd i Adrodd, ar ôl trafod â'r ymarferydd sydd wedi siarad â'r person ifanc.

Os nad yw'r person ifanc yn bodloni'r meini prawf brys, bydd cyngor yn cael ei roi ynghylch y llwybr atgyfeirio mwyaf priodol – naill ai Rhan 1 neu Ran 2.

Wedi i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gael atgyfeiriad o dan y Protocol Hunan-niweidio Risg Uchel a Hunanladdiad Posibl, dylai cyfarfod amlasiantaethol gael ei gynnal o fewn pum diwrnod i'r atgyfeiriad ddod i law os yw'r plentyn/person ifanc wedi'i atgyfeirio at y Tîm Cymorth ac Ymgysylltu Dwys (ISET) neu'r Tîm Allgymorth mewn Argyfwng (COT). Os yw'r plentyn/person ifanc i gael ei dderbyn ar gyfer asesiad seiciatrïg fel claf mewnol, dylai'r cyfarfod hwn gael ei gynnal o fewn 24 awr. Dylai'r cyfarfod gael ei gynnull a'i gydlyn gan y Tîm Iechyd (y Tîm Allgymorth mewn Argyfwng (COT)/Tîm Cyswllt Brys gyda chymorth Tîm Diogelu y Bwrdd Iechyd), dylai amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n berthnasol i'r plentyn/person ifanc gael eu gwahodd, a bydd y person ifanc a'i rieni/ofalwyr yn cael eu gwahodd hefyd (dylai'r cyfarfod gael ei gynnal hyd yn oed os byddan nhw'n gwrthod y gwahoddiad). Bydd y cyfarfod yn cael ei gofnodi gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, a bydd y cofnodion yn cael eu cylchredeg o fewn pum diwrnod gwaith. Dylai hysbysiad gael ei anfon gan yr asiantaeth sy'n cydlynu'r cyfarfod (Iechyd) i Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent (neges e-bost i DiogeluGwent@caerffili.gov.uk) i roi gwybod bod cyfarfod amlasiantaethol yn cael ei gynnal ynghylch person ifanc, gan ddarparu blaenlythrennau, dyddiad geni ac ardal awdurdod lleol y person ifanc. Bydd hyn yn galluogi cadw cofnod canolog am yr holl blant a phobl ifanc hynny yng Ngwent sy'n bodloni'r trothwy risg uchel hwn a phan fydd ymyrraeth amlasiantaethol yn cael ei chymhwyso o dan y broses hon.

Diben y cyfarfod hwn fydd rhannu gwybodaeth a chwblhau cynllun rheoli risg amlasiantaethol, a chytuno arno. Dylai hyn sicrhau cyfrifoldebau ar y cyd ar draws yr holl asiantaethau er mwyn hyrwyddo amddiffyn y person ifanc dan sylw, fel sydd wedi'i nodi yn yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, Pwynt Dysgu 3 (Bwrdd Diogelu Gwent 2018).

Dylai aelodaeth graidd y cyfarfod hwn gynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n meddu ar wybodaeth am y person ifanc, neu'n gweithio gyda'r person ifanc, gwasanaethau addysg, y Gwasanaethau Troseddau Ieuencid, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Fy Nhîm Cymorth (MyST), Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd ac ati. Os yw'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn ymwneud â'r plentyn/person ifanc ar hyn o bryd, dylai dogfen asesiad risg WARRN (Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru, Snowdon et al, 2019) gael ei diweddaru a'i chylchredeg ymhlith yr holl fynychwyr. Bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau gan y Gwasanaethau i Blant i adlewyrchu'r cynllun rheoli risg.

Dylai dyddiad gael ei drefnu ar gyfer y cyfarfod monitro/adolygu yn unol â sefyllfa a lefel angen y plentyn/person ifanc. Dylai'r cyfarfodydd adolygu, os oes angen, gael eu cynnal o leiaf bob tri mis.

Achosion aml o gadw person o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Mae adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i'r heddlu fynd ag unigolyn i fan diogel neu ei gadw mewn man diogel. Cyn defnyddio adran 136, rhaid i'r heddlu ymgynghori ag ymarferydd meddygol cofrestredig, nyrs gofrestrdig neu weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP). Mae'r heddlu'n cael cadw'r unigolyn yn y man diogel am hyd at 24 awr.

Mae achosion aml o gadw person o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, pan nad yw adran arall (e.e. adran 2) ar ôl asesu wedi'i nodi, yn dal i gyfeirio at ymddygiad risg uchel, a nifer o gymhlethdodau ym mywyd y person ifanc ochr yn ochr ag unrhyw broblemau iechyd meddwl posibl. Dylai hyn olygu cynnal cyfarfod amlasiantaethol i ddatblygu cynllun diogelwch. Mae'n bosibl y bydd gan y plentyn/person ifanc gynllun diogelwch eisoes ar waith, felly, gallai fod yn fuddiol adolygu'r cynllun hwn, a'i ddiweddaru, yn hytrach na datblygu cynllun newydd. Fel uchod, dylai'r cynllun diogelwch gael ei ddatblygu ar y cyd â'r plentyn/person ifanc a chael ei ddosbarthu'n briodol.

Hefyd, bydd Arweinydd Iechyd Meddwl yr Heddlu yn adolygu achosion rheolaidd o gadw person fel rhan o'r broses ehangach o dan adran 136; gall yr adolygiadau hyn gynnwys ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol priodol hefyd.

Atodiad 1

Adnoddau a chysylltiadau


Hyfforddiant

- [Croeso i Hwb Hyfforddiant Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru | SSHP Cymru](#)
- [Cyrsiau Iechyd Meddwl a Lles | Melo](#) – Mae hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddi am ddim i weithwyr proffesiynol i helpu gwella gwybodaeth, sgiliau, hyder a chymhelliant i gynnal sgysiau lles meddyliol ac i fod yn fwy ymwybodol o hunanladdiad.

Dogfennau

- [Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc | Llywodraeth Cymru](#)
- [Ymateb i faterion o hunan-niwed a meddyliau am hunanladdiad mewn plant a phobl ifanc yng Ngwent | Diogelu Gwent](#)
- [Iechyd meddwl plant: dysgu o adolygiadau achos | NSPCC Learning](#)

Dogfennau ar gyfer ysgolion



Gwasanaethau partner

- **Ffoniwch GIG 111 a phwyswch Opsiwn 2** – Os ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod angen gofal iechyd meddwl brys, ond nad yw'n peryglu bywyd, ffoniwch [GIG 111](#) a dewiswch Opsiwn 2. Mae Iechyd Meddwl 111 (Opsiwn 2) ar gael ddydd a nos, ac mae am ddim i alwadau o ffôn symudol (hyd yn oed pan nad oes credyd ar ôl gan y galwr) neu o linell dir. Pan fyddwch chi'n ffonio, bydd Ymarferydd Iechyd Meddwl a Lles yn trafod sut rydych chi'n teimlo. Byddan nhw'n gallu darparu ymyriadau byr dros y ffôn i'ch helpu chi i ymdopi â sut rydych chi'n teimlo. Hefyd, byddan nhw'n gallu trefnu atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl, os bydd angen.
- **Llinell Gymorth Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru** – Llinell gymorth iechyd meddwl i Gymru sy'n darparu gwasanaeth gwranddo a chymorth cyfrinachol, ac sydd **ar agor ddydd a nos** – [Llinell Gymorth Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru – Llinell Gyngor a Gwranddo'r Gymuned](#)
- **PAPYRUS – HOPELINE247** – Atal hunanladdiad ymhlith pobl ifanc – **0800 068 4141** – www.papyrus-uk.org

Gallwch chi gysylltu â HOPELINE247:

- os ydych chi'n meddwl am hunanladdiad ac angen cymorth i'ch cadw chi'n ddiogel rhag cymryd camau i ladd eich hun.

- os oes gennych bryderon am rywun sydd, o bosibl, yn eich barn chi, yn meddwl am hunanladdiad ac angen cymorth i gael sgysiau diogel ynghylch hunanladdiad.
- os oes angen i chi gael ôl-drafodaeth ar ôl helpu rhywun o ran ei feddyliau am hunanladdiad.
- **2wish** – Cymorth i deulu plentyn neu oedolyn ifanc, 25 oed neu'n iau, sydd wedi marw'n sydyn ac sy'n byw yng Nghymru.

Ffôn: 01443 853125

E-bost: info@2wish.org.uk

Gwefan: www.2wish.org.uk

- **Sefydliad Jacob Abraham** – Bydd yn cynnig cymorth i unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan farwolaeth drwy hunanladdiad ymhlith oedolion 26 oed a hŷn sy'n byw yn ardal Gwent yng Nghymru.

Ffôn: 029 2240 4736

Ffôn symudol: 07501 096081

E-bost: gwentpostventionsupport@jacobsfoundation.org.uk

Gwefan: www.jacobsfoundation.org.uk

- [Melo – Iechyd meddwl a lles – Adnoddau, cyrsiau a chymorth](#)

Melo yw gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sydd â gwybodaeth hunangymorth, cyngor, adnoddau a chysiau am ddim i helpu pobl i ofalu am eu hiechyd meddwl a'u lles, a gwella eu hiechyd meddwl a'u lles.